# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

Medi 8fed, 2026

Annwyl Gynghorydd,
Gwysir chi i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref am **19.00**, Nos Fawrth, Medi 15fed, 2026 yn Ystafell Croeso, Y Ganolfan, Porthmadog a thrwy gyfrwng Microsoft Teams. I dderbyn gwahoddiad ar gyfer mynediad, cysylltwch â'r Clerc ar clerccyngtreport@gmail.com

**Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Medi 15fed, 2026**

**RHAGLEN**

1. **Presennol**
2. **Ymddiheuriadau**
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:**
   **Cyfarfod Llawn Gorffennaf 2026**
   **Cyfarfodydd Eiddo a Cyllid Gorffennaf 2026**
4. **Adroddiad y Cadeirydd**
5. **Adroddiad y Clerc**
6. **Datgan diddordeb.**
7. **Ceisiadau Cynllunio.**
   Rhif Cais / Application No.: C26/0518/44/LL
   Lleoliad / Location: Llaethdy Taleifion, 4 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB
   Bwriad: Newid defnydd rhan o'r llawr daear o dy annedd i ffurfio rhan o'r bwyty presennol.

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

**9. MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

**10. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Hydref 13eg 2026 = Hydref 3ydd 2026, ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

Cyng. Aled Griffith:
1. Parc Bodawen:
Cynnig bod y Cyngor Tre yn dechrau trafodaeth ar syniadau newydd i'r Parc.
Rhoi cyflwyniad o gynllun parc Bodawen a gynllunwyd gan Breuddwydion Bro nol yn 2011.

2. Teithio Llesol:
Cynnig bod y Cyngor Tre yn rhoi pwysa ar Gyngor Gwynedd i gwblhau cynllun Teithio Llesol a greuwyd gan Cyngor Gwynedd yn 2018. Buasai'r cynllun yn plethu i mewn i'r cyfarfod a gafwyd gyda swyddogion Gwynedd yn Awst 2026 i roi ychydig o wyrddni ar strydoedd Porthmadog.

Rhoi cyflwyniad o cynllun Teithio Llesol a greuwyd gan Cyngor Gwynedd nol yn 2018 i welliannau i strydoedd Porthmadog. 8 mlynedd yn ddiweddarach, mae rhannau o'r cynllun dal heb eu cyflawni.

3. Cynnig bod Y Clerc yn ail gyflwyno'r rhestr aros am ateb i'r cyfarfod misol er mwyn cael cadw i fyny ar y cynigion ac os ydym yn derbyn atebion er mwyn ail yrru os fydd rhaid.

4. Mae yna gynllun gan Gyngor Gwynedd i stopio Bws 3 Caerlloi rhwng Porthmadog a Phwllheli (sydd yn mynd drwy Dremadog) a chyflwyno bws Arfordir Meirion/Dwyfor G23 a fydd yn rhedeg rhwng Y Bermo a Phwllheli. (Digwyddiad galw heibio gan Gyngor Gwynedd yn Ganolfan Hamdden ar Fedi 15fed rhwng 10.00yb a 2.00yp) Cynnig bod Cyngor Tre Porthmadog yn gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd a holi os fydd gwasanaeth newydd Arfordir Meirion/Dwyfor G23 yn teithio drwy Dremadog.

**11. Gohebiaeth: Rhestr Aros am Ateb.**
**Iwan ap Trefor – Cyngor Gwynedd. Llwybr newydd Llyn Bach.**

**12. <u>GOHEBIAETH :</u>**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Arwel Lewis Jones – Breese Gwyndaf | Cytundeb les rhwng Cyngor Tref Porthmadog a'r Grid Cenedlaethol parthed Cae Chwarae Bodawen. |
| 2 | Breese Gwyndaf | Cytundeb Cae Pawb |
| 3 | Nia Clarke (Cyngor Gwynedd) | Prosiect SGG Porthmadog |
| 4 | RJ Electrics | Goleuadau Nadolig |

**<u>13. MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | HSBC | Llog Banc hyd at Awst 19, 2026 | £39.19 |

**Taliadau:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyngor Gwynedd | Tal cytundeb trosglwyddo perchnogaeth Cae Pawb | £1 |
| 2 | Elfyn Lewis | Cyflog Clerc Gorffennaf 2026 | £1408.58 |
| 3 | | Cyflog Clerc Awst 2026 | £1408.58 |
| 4 | HMRC | Treth Incwm Clerc Gorffennaf 2026 | £352.14 |
| 5 | HMRC | Treth Incwm Clerc Awst 2026 | £352.14 |
| 6 | Marian Roberts | Cyflog | £368.63 |
| 7 | HMRC | Treth Incwm Marian Roberts | £92.16 |
| 8 | Defib Store | Padiau newydd i defib Morfa Bychan. Taliad arlein | £168 |
| 9 | Williams a Williams | Sgip Cae Pawb | £306 |
| 10 | HSBC | Taliadau Banc hyd at Awst 19, 2026 | £2.40 |
| 11 | Cyngor Gwynedd | Archwiliad Mewnol Cyngor Gwynedd | £510 |
| 12 | Alan G. Jones | Tynnu polion fflagiau i lawr o Stryd Fawr Porthmadog | £480 |
| 13 | Alan G. Jones | Ail-osod polion fflagiau yn Stryd Fawr Porthmadog | £480 |
| 14 | Information Commissioner's Office | Diogelu data | £52.00 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Elfyn Lewis (Clerc)
Medi 8fed, 2026

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*